# WILDFOX RESORTS NEWSLETTER #4

**Spring is here!**

It has been a busy few months behind the scenes in preparation for these brighter and longer days. This first newsletter of 2023 provides an overview of our latest activity and our plans for the coming season.

# CYLCHLYTHYR CYRCHFAN WILDFOX #4

**Daeth y gwanwyn!**

Bu'n ychydig fisoedd prysur y tu ôl i'r llenni wrth i ni baratoi am y dyddiau goleuach a hirach hyn. Mae'r cylchlythyr cyntaf hwn yn 2023 yn rhoi trosolwg o'n gweithgarwch diweddaraf, a'n cynlluniau ar gyfer y tymor i ddod.

## So, what's been happening?

The delivery team have all been really busy over the winter period, and have made progress across the following workstreams:

- **Liaison Forum** - we were pleased to meet with Council representatives to discuss project priorities, such as community safety, and how the resort can link to council services.
- **Team appointments** – we have onboarded Colliers to support business planning, Sparcstudio to design Wild Spa and a number of further consultants under a 'winter works' package to progress technical matters and studies.
- **Supply chain development** - the team have commenced early contractor involvement and have visited lodge suppliers and tourism sites.
- **Welsh Language Strategy** - we have been working closely with the Welsh Commission to finalise the Welsh Language Strategy which sets out how we will ensure the Welsh language is to be embedded from the outset in the Afan Valley resort. This includes our communication, supply chain, resort design and internal organisational processes.
- **Design Strategy** – our project architects have been refining the resort buildings and exploring options for the look and feel of the site.

- **Site maintenance** - the team are maintaining onsite tracks and managing vegetation in advance of further ground investigations happening over Spring and Summer. The team have also been working to ensure off site environmental areas are in place and are being enhanced to facilitate greater diversity.
- **Ecology** – we have making the necessary preparations to begin moving reptiles to their new home. We are actively looking for ecological field surveyors, so please do get in touch with jobs@keyenv.co.uk if you're interested. All works taking place are carried out under the supervision of the Ecological Clerk of Works.

## Felly, beth sydd wedi bod yn digwydd?

Mae'r tîm cyflenwi wedi bod yn brysur dros ben dros y gaeaf, ac wedi gweld cynnydd ar draws y meysydd gwaith canlynol:

- **Fforwm Cysylltu** – pleser oedd cwrdd â chynrychiolwyr y Cyngor i drafod blaenoriaethau prosiectau, fel diogelwch cymunedol, a sut y gall y gyrchfan gysylltu â gwasanaethau'r cyngor.

- **Penodiadau i'r tîm** – rydym wedi dod â Colliers i mewn i gefnogi'r gwaith o gynllunio busnes, Sparcstudio i gynllunio'r Sba Gwyllt a sawl ymgynghorydd arall dan becyn o 'waith y gaeaf' i symud materion technegol ac astudiaethau ymlaen.
- **Datblygu cadwyn gyflenwi** – mae'r tîm wedi cychwyn ar ymgysylltiad cynnar â chontractwyr ac wedi ymweld â chyflenwyr lojys a safleoedd twristiaeth.
- **Strategaeth yr Iaith Gymraeg** – rydym wedi bod yn gweithio'n glos gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i gwblhau'r Strategaeth Iaith Gymraeg sy'n amlinellu sut y byddwn ni'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwreiddio o'r dechrau'n deg yng nghyrchfan Cwm Afan. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu, y gadwyn gyflenwi, dyluniad y gyrchfan a phrosesau trefnu mewnol.
- **Strategaeth Ddylunio** – mae penseiri ein prosiect wedi bod yn mireinio adeiladau'r gyrchfan ac yn archwilio opsiynau ar gyfer golwg a naws y safle
- **Cynnal a chadw'r safle** – mae'r tîm yn cynnal traciau ar y safle ac yn rheoli llystyfiant, cyn i fwy o waith archwilio tir ddigwydd dros y gwanwyn a'r haf. Bu'r tîm yn gweithio hefyd i sicrhau bod ardaloedd amgylcheddol oddi ar y safle'n barod, ac yn cael eu gwella i greu mwy o amrywiaeth.
- **Ecoleg** – rydym ni wedi bod yn gwneud y paratoadau angenrheidiol ar gyfer symud ymlusgiaid i'w cartref newydd. Rydyn ni'n chwilio'n weithredol am syrfewyr maes ecolegol, felly cysylltwch ar bob cyfrif â jobs@keyenv.co.uk os oes gennych ddiddordeb. Mae pob gwaith sy'n digwydd yn cael ei gynnal dan oruchwyliaeth y Clerc Gwaith Ecolegol.

## Safety Message

A reminder that the Council has temporarily closed certain Public Rights of Ways, that prevent access for pedestrians, cyclists and equestrian use until 31 July. This area is now a live construction site under health and safety responsibilities of our contractors. For more information on the routes affected, please use this link.

## Neges am Ddiogelwch

Dyma'ch atgoffa bod y Cyngor wedi cau rhai Llwybrau Tramwy Cyhoeddus dros dro, gan atal mynediad i gerddwyr, seiclwyr a phobl sy'n defnyddio ceffylau, tan 31 Gorffennaf. Mae'r ardal hon bellach yn safle adeiladu weithredol dan gyfrifoldebau iechyd a diogelwch ein contractwyr.

I gael mwy o wybodaeth am y llwybrau a effeithiwyd, defnyddiwch y ddolen hon os gwelwch yn dda.

## Volunteers needed

Our ecology team are actively looking for volunteers to support the translocation of reptiles to an adjacent site. Prior experience is not required, and training will be provided. More information on the role can be found here - Ecological Field Surveyor volunteer description.

If this is of interest, please get in contact via our website or contact jobs@keyenv.co.uk

## Angen gwirfoddolwyr

Mae ein tîm ecoleg yn chwilio am wirfoddolwyr i gefnogi trawsleoli ymlusgiaid i safle cyfagos. Nid oes angen profiad blaenorol, a darperir hyfforddiant. Gellir cael mwy o wybodaeth am y rôl yma – disgrifiad gwirfoddolwr Syrfeor Maes Ecolegol.

Os yw hyn o ddiddordeb i chi, cysylltlwch drwy ein gwefan neu jobs@keyenv.co.uk.

# Making an impact in communities

Since January, we have been working with 2B Enterprising to support four primary schools in the SA13 Afan Valley area and an additional local Welsh medium school, over a three-year period.
The team have completed their first session in schools, delivering lessons about entrepreneurship, confidence, resilience, wellbeing, diversity and inclusion. Following the success of our first activity, we have committed to supporting a fifth school.

You can read more about the partnership here.

We have plans for lots more exciting activities and will share more information on work we are doing soon. This includes digitalising local photo albums, running Wildfox themed school competitions and assisting with volunteering to support the Community Garden at Cymmer School

# Creu argraff mewn cymunedau

Ers mis Ionawr rydym wedi bod yn gweithio gyda 2B Enterprising i gefnogi pedair ysgol gynradd yn ardal SA13 Cwm Afan, ac ysgol Gymraeg leol ychwanegol, dros gyfnod o dair blynedd.
Mae'r tîm wedi cwblhau'u sesiwn gyntaf yn yr ysgolion, gan ddarparu gwersi am entrepreneuriaeth, hyder, gwytnwch, llesiant, amrywiaeth a chynhwysiant. Wedi llwyddiant ein gweithgaredd cyntaf, rydym wedi ymrwymo i gefnogi pumed ysgol.

Gallwch ddarllen mwy am y bartneriaeth yma.

Mae gennym gynlluniau ar gyfer llawer mwy o weithgareddau cyffrous, a byddwn ni'n rhannu mwy o wybodaeth am waith sy'n digwydd yn fuan. Mae hyn yn cynnwys digideiddio albymau lluniau lleol, cynnal cystadlaethau ar thema Wildfox i ysgolion, a chynorthwyo gyda gwirfoddoli i gefnogi'r Ardd Gymunedol yn Ysgol Cymer.

## Talking to local partners and community groups




On 16 March, we partnered with Neath Port Talbot Youth Service to sponsor the 'A Safer Croeserw' event.

*"The team, including our site managers Keystone, were pleased to sponsor and attend the 'Safer Croeserw' event. We enjoyed meeting local community organisations, public agencies and residents to talk about our plans for the Wildfox resort and the opportunities ahead. We shared details of our next steps in site preparation to get ready for construction, and discussed ideas for partnership working, restoring the landscape and enhancing the environment, and well as future training and jobs – both in construction and then in operation." –* **Claire Pearce, Director of Sustainability and Economic Development**.

## Siarad â phartneriaid lleol a grwpiau cymunedol




Ar 16 Mawrth, bu i ni bartneru â Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot i noddi digwyddiad 'Croeserw Mwy Diogel'.

*"Roedd y tîm, gan gynnwys ein rheolwyr safle, Keystone, yn falch o noddi a mynychu digwyddiad 'Croeserw Mwy Diogel'. Fe wnaethon ni fwynhau cwrdd â sefydliadau cymunedol lleol, asiantaethau cyhoeddus a phreswylwyr i siarad am ein cynlluniau ar gyfer cyrchfan Wildfox a'r cyfleoedd sydd i ddod. Rhannwyd manylion ein camau nesaf o ran paratoi'r safle ar gyfer dechrau adeiladu, a thrafodwyd syniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, adfer y dirwedd a gwella'r amgylchedd, yn ogystal â hyfforddiant a swyddi i'r dyfodol – ym meysydd adeiladu ac wedyn gweithredu." –* ***Claire Pearce***, **Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd a Datblygu Economaidd**

## Meet the buyer event series

At the end of April, we are hosting the first 'Meet the Buyer' event. This series will discuss supply chain opportunities in alignment with the wider programme and explore the strategy for future implementation and project delivery, as well as our aspirations for social value and inclusivity. We are operating these events on an invite only basis. To be considered for future events, please register via the local supply chain form on our Afan Valley webpage.

## Cyfres o ddigwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr

Ar ddiwedd mis Ebrill, rydyn ni'n cynnal ein digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr' cyntaf. Bydd y gyfres hon yn trafod cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi law yn llaw â'r rhaglen ehangach, ac yn archwilio'r strategaeth ar gyfer gweithredu a chyflawni'r prosiect i'r dyfodol, yn ogystal â'n huchelgais i greu gwerth cymdeithasol a chynhwysiant.Rydyn ni'n gweithredu'r digwyddiadau hyn ar sail gwahoddiad yn unig. Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer mynychu digwyddiadau yn y dyfodol, cofrestrwch gan ddefnyddio'r ffurflen cadwyn gyflenwi ar ein gwefan Cwm Afan.

## What's coming up?

- It is the year of the reptile translocation, a fundamental part of site preparation.
- Refining our business case and briefing Welsh Government.
- Ongoing work on cost planning and procurement.
- Stepping up communications activity as we move further into implementation.
- Going out to the market to raise further funding for delivery.
- Developing the 'people strategy' with Neath Port Talbot Group of Colleges to explore training and employment opportunities.
- Delivering our second session with 2B enterprising in schools

## Beth sydd ar y gweill?

- Dyma flwyddyn trawsleoli'r ymlusgiaid, sy'n rhan sylfaenol o baratoi'r safle.
- Mireinio ein hachos busnes a briffio Llywodraeth Cymru.
- Gwaith parhaus ar gynllunio costau a chaffael.
- Cynyddu gweithgarwch cyfathrebu wrth i ni symud ymhellach i'r cam o sefydlu'r gyrchfan.
- Mynd i'r farchnad i godi mwy o gyllid ar gyfer cyflawni'r gyrchfan.
- Datblygu 'strategaeth pobl' gyda Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot i archwilio cyfleoedd hyfforddi a chyflogi.
- Darparu ein hail sesiwn gyda 2B i greu menter mewn ysgolion.